Carwyn Jones AM/AC

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ
Counsel General and Leader of the House

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yr Arglwydd Dafydd Elis – Thomas AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

27 Mehefin 2008

Annwyl Dafydd,

RHEOLIADAU DEUNYDDIAU AC EITEMAU PLASTIG MEWN CYFFYRDDIAD Â BWYD (CYMRU) (RHIF 2) 2008

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu ei bod wedi dod yn angenrheidiol torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn dod â Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cyffyrddiad â Bwyd (Cymru) (Rhif 2) 2008 i rym yng Nghymru yn unol â gweddill y DU. Gwnaed y Rheoliadau hyn ac fe'u gosodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2008 a byddant yn dod i rym ar 30 Mehefin 2008, o ran rheoliad 30(a), a daw gweddill y Rheoliadau i rym ar 1 Gorffennaf 2008.

Bydd y Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gorfodi yng Nghymru Reoliad y Comisiwn (EC) 587/2008 sy'n estyn y terfynau ymfudiad trosiannol ar gyfer plastigyddion penodol mewn gasgedi selio mewn caeadau jariau bwyd i ganiatáu i blastigyddion penodedig barhau i gael eu defnyddio o fewn y terfynau ymfudiad uwch cyfredol hyd at 30 Ebrill 2009. Bydd y Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu ac yn ail-wneud yn ddwyieithog Reoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cyffyrddiad â Bwyd (Cymru) 2008 a chywiro dau gyfeiriad gwallus.

Rhoes Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cyffyrddiad â Bwyd (Cymru) 2008, a ddaeth i rym ar 1 Mai 2008 (ac eithrio rheoliad 29(c) a oedd i fod i ddod i rym ar 1 Gorffennaf 2008) Gyfarwyddeb yr UE 2007/19/EC ar waith. Roedd hon yn Gyfarwyddeb ddiwygio a ddiweddarodd y rhestrau o sylweddau monomer ac ychwanegion y caniateir eu defnyddio wrth weithgynhyrchu plastigau sy'n dod i gyffyrddiad â bwyd a gosododd yr amodau angenrheidiol ar gyfer eu defnyddio yn ddiogel.

Ar 20 Mai 2008 mabwysiadodd Pwyllgor Sefydlog y Comisiwn Ewropeaidd ar y Gadwyn Fwyd ac Iechyd Anifeiliaid gynnig i ddiwygio Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 372/2007. Gosododd Rheoliad y Comisiwn (EC) rhif 372/2007 derfynau ymfudiad trosiannol ar gyfer

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Ffôn * Tel 029 2082 8055
Ffacs * Ffacs 029 2089 8475
Correspondence.Carwyn.Jones@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

plastigyddion a ddefnyddir mewn gasgedi mewn caeadau jariau bwyd. Bwriadwyd i Reoliad 2007 fod yn fesur byrhoedlog a oedd i fod i bara tan 30 Mehefin 2008, pan oedd darpariaethau'r Rheoliad Ewropeaidd i fod i ddod i ben. Y tu hwnt i'r dyddiad hwnnw, byddai darpariaethau Cyfarwyddeb y Comisiwn 2007/19/EC wedi gosod terfynau ymfudiad llymach ar y sylweddau dan sylw. Felly, byddai Rheoliadau Defnyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cyffyrddiad â Bwyd (Gasgedi mewn Caeadau) (Cymru) 2008 wedi cael eu dirymu ar 1 Gorffennaf 2008, yn unol â rheoliad 29(c) o Reoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cyffyrddiad â Bwyd (Cymru) 2008.

Mae'r Rheoliad Ewropeaidd diwygio (Rheoliad EC 597/2008) a gyhoeddwyd yn y Cyfnodolyn Swyddogol ar 25 Mehefin 2008 yn estyn hyd at 30 Ebrill 2009 y cyfnod pryd y caniateir terfynau ymfudiad uwch ar gyfer y plastigyddion penodedig a nodir yn Rheoliad (EC) 372/2007. Gosodasid y terfyn amser blaenorol ar 30 Mehefin 2008. Mae'r estyniad yn rhoi rhagor o amser i'r diwydiant ofalu bod eu cynhyrchion selio yn cydymffurfio â'r rheolau llymach a nodir yng Nghyfarwyddeb y Comisiwn 2007/19/EC. Mae gwneuthurwyr caeadau wedi methu â datblygu fformiwleiddiadau sy'n cydymffurfio â'r terfynau ymfudiad is ar gyfer plastigyddion penodedig yn yr amser y gofynasent amdano yn wreiddiol. Mae'r fformiwleiddiadau newydd hyn yn symud i ffwrdd oddi wrth ddefnyddio plastigyddion eraill llai dymunol.

Felly, er mwyn sicrhau y bydd busnesau yng Nghymru yn gallu cymryd mantais o'r cyfnod parhau ar gyfer defnyddio'r plastigyddion penodedig, mae'n hanfodol bod rheoliad 30(a) o'r Offeryn Statudol hwn yn dod i rym ar 30 Mehefin 2008 i atal dirymiad Rheoliadau Defnyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cyffyrddiad â Bwyd (Gasgedi mewn Caeadau) (Cymru) 2008. Daw deddfwriaeth debyg i rym ar 30 Mehefin 2008 yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i atal dirymiad yr offerynnau yno sy'n cyfateb i Reoliadau Gasgedi mewn Caeadau yng Nghymru.

Hefyd, er mwyn sicrhau cysondeb wrth orfodi'r gyfraith ac osgoi dryswch i weithgynhyrchwyr am y byddai rheolau gwahanol sy'n ymwneud â phlastigau mewn cyffyrddiad â bwyd yn gymwys yng Nghymru i weddill y DU, mae angen i weddill yr Offeryn Statudol ddod i rym ar 1 Gorffennaf 2008 yn unol â deddfwriaeth debyg a wneir yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Am y rhesymau hyn, mae'n angenrheidiol torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn i reoliad 30(a) o'r Rheoliadau ddod i rym ar 30 Mehefin 2008, gyda gweddill y Rheoliadau yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2008.

NI fu'r Rheoliadau hyn yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan na fydd unrhyw effaith negyddol ar fusnesau (nac ar sectorau eraill). Ond, mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi ac mae hwn wedi'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Dr Dai Lloyd, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ac at Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.

Yn gywir